RHEOLAU CERDDORIAETH

1. Cenir pob darn prawf a phob hunanddewisid yn y Gymraeg.
2. Caniateir i dri pharti neu gôr gynrychioli'r Rhanbarth yng nghystadleuaeth rhifau **31, 32, 33, 34, 35.**
3. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn yr argraffiad a'r cyweirnod a nodir yn y rhaglen hon. Ni chaniateir defnyddio argraffiad gwahanol nac ychwaith newid cyweirnod unrhyw gystadleuaeth oni nodir yn wahanol.
4. Rhaid i unigolion, partïon a chorau ddysgu'r darnau cyflawn neu'r nifer o benillion a nodir yn y Rhestr Testunau.
5. Rhaid i bartïon a chorau ddod â'u cyfeilyddion ac arweinyddion eu hunain, a gall y rheini fod yn bobl mewn oed, oni nodir yn wahanol.
6. Pan fydd cwmni, grŵp neu barti yn defnyddio cerddoriaeth ymlaen llaw neu yn chwarae yn fyw unrhyw gerddoriaeth a gyhoeddwyd yn fasnachol, cyfrifoldeb y cyfryw gwmni, grŵp neu barti yw sicrhau yr hawlfraint.
7. Lle mae hunanddewisid rhaid i bawb anfon copïau gydag enw, cyfeiriad, rhif ffôn a rhif y gystadleuaeth wedi'u nodi'n glir arnynt, at drefnydd yr Eisteddfod Gylch yr un adeg a gofrestrir y cystadleuwyr ar-lein.
8. Mae gwneud copïau ychwanegol eich hun o gerddoriaeth sydd wedi ei chyhoeddi, yn anghyfreithlon.
9. Yng nghystadlaethau rhifau **6**, **24**, **25**, **27**, **28**, **32**, **33** caniateir trefnu'r cyfeiliant i offerynnau amrywiol addas. Fodd bynnag, y perfformiad lleisiol a feirniedir.
10. Ni chaniateir defnyddio traciau cefndir wedi'u recordio ymlaen llaw i gyfeilio yn ystod yr Eisteddfod oni nodir yn wahanol.
11. Disgwylir i'r cystadleuwyr fod yn barod i berfformio yn syth ar ôl cyrraedd y llwyfan.
12. Bydd yr Urdd yn darparu set o ddrymiau ar gyfer Rhagbrofion a llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Ni chaniateir defnyddio drymiau eich hunain (**ac eithrio yn y cystadlaethau Unawd Taro).** Ni fydd y ddarpariaeth hon ar gael yn yr Eisteddfodau Cylch/Sir/Rhanbarth. Rhaid defnyddio drymiau eich hunain yno.
D.S. Rheolau Cyffredinol